Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Abersychan Under Fives

**Neuadd Gymunedol Brynteg
Abersychan
NP4 7BG**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Abersychan Under Fives

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Abersychan Under Fives |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Isobel Yacomen |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Andrew Yacomen |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 2 oed a 5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9.15am tan 11.45am a 12.15pm tan 2.30pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at 'Gynnig Rhagweithiol' y Gymraeg, ac mae'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17 Hydref 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 05/12/2023 |
| Nid oes unrhyw blant yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae 1 plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol canfyddedig. Nid oes unrhyw blant o aelwydydd Cymraeg eu hiaith. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Adolygu'r asesiad risg tân yn rheolaidd

A2 Rhannu gwybodaeth am brofiadau plant yn rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae gan bob un o'r plant lais cryf ac maent yn mynegi eu dymuniadau, gan wybod y byddant yn cael eu deall gan ymarferwyr sy'n eu hadnabod yn dda. Maent yn gwneud dewisiadau ystyrlon yn eu chwarae, wrth iddynt symud yn rhydd rhwng gweithgareddau cwbl hygyrch sydd o ddiddordeb iddynt. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu teimladau'n rheolaidd, er enghraifft pan fyddant yn oer ac eisiau mynd y tu mewn neu os oes eisiau ffrwythau ychwanegol arnynt amser byrbryd.

Mae plant wedi ymgynefino'n dda ac yn ffurfio cysylltiadau cryf â'u cyfoedion ac ymarferwyr. Mae bron pob un ohonynt yn cyrraedd ac yn mynd i mewn i'r lleoliad yn eithriadol o hapus, gan wenu a chyfarch ymarferwyr yn gyffrous wrth iddynt ddweud hwyl fawr wrth eu gofalwr. Mae bron pob un o'r plant yn gwybod beth yw arferion cyfarwydd y lleoliad, ac yn eu dilyn. Maent yn dangos mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu, er enghraifft wrth ganu caneuon a gwrando ar storïau'r Nadolig.

Maent yn mwynhau cymryd rhan yn bwrpasol mewn gweithgareddau gyda'u cyfoedion ac ymarferwyr. Er enghraifft, wrth chwarae yn eu cornel gartref chwarae rôl, maent yn chwarae am gyfnodau amser estynedig gyda'u ffrindiau, yn gwneud te ac yn siarad am eu hoff gacennau a bwyd. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio moesau da yn naturiol ac yn dangos caredigrwydd i'w gilydd wrth chwarae gyda'u cyfoedion. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau annibynnol a phersonol yn dda. Maent yn defnyddio toiledau yn annibynnol ac yn dyfalbarhau wrth wisgo'u dillad awyr agored i chwarae'r tu allan. Mae pob un o'r plant yn gweini bwyd a dŵr

iddyn nhw eu hunain yn ystod amser byrbryd ac yn gwaredu unrhyw fwydydd dros ben yn y bin ailgylchu.

Mae pob un o'r plant yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd hylendid da trwy olchi eu dwylo fel mater o drefn ar adegau allweddol. Mae llawer o blant yn mynd i nôl hancesi papur a sychu eu trwyn eu hunain, gan waredu'r hances bapur yn y bin pedal a mynd i olchi eu dwylo.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:  Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn hyderus, sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu plant a'u cadw'n iach. Maent yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau o ran delio â phryderon ynghylch amddiffyn plant ac unrhyw anghenion meddygol sydd gan blant. Maent yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigol plant yn ddiogel ac yn mynychu hyfforddiant buddiol sy'n eu cynorthwyo i wneud hyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant yn effeithiol yn ystod eu chwarae. Maent yn eu hannog i symud o fewn yr ardaloedd chwarae dan do ac yn yr awyr agored yn rhwydd. Mae ymarferwyr yn rhoi arferion hylendid da ar waith, fel gwisgo ffedogau a menyg wrth gynorthwyo plant i ddefnyddio'r toiled a pharatoi bwyd. Maent yn diheintio byrddau yn effeithiol i baratoi ar gyfer byrbryd, ac yn gofalu eu bod yn glanhau ardaloedd ar ôl iddynt fynd yn anniben. Mae ymarferwyr yn darparu byrbrydau iach yn unol ag anghenion bwyd unigol plant.

Mae ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio plant yn eithriadol o dda. Maent yn achub ar bob cyfle i ganmol ymddygiad da, ac mae ethos cadarnhaol yn ganolog i'r hyn y mae ymarferwyr yn ei wneud. Mae ymarferwyr yn rhoi'r polisi ymddygiad ar waith mewn modd cyson, teg ac eithriadol o bwyllog. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyswllt llygad da a thôn llais bwyllog i atgoffa plant yn syml i ddilyn rheolau'r lleoliad. Maent yn esbonio effaith ymddygiad digroeso mewn ffordd glir, fel bod plant yn deall disgwyliadau eu hymddygiad. Mae ymarferwyr yn gweithredu strategaethau sy'n cefnogi ymddygiad plant yn dda. Maent yn gweithio'n sensitif gyda phlant i ddod o hyd i atebion i unrhyw broblemau, ac yn gweithredu'n brydlon i dynnu sylw plant cyn i unrhyw broblemau ddwysàu.

Mae ymarferwyr yn rhoi systemau da ar waith i nodi a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn gweithio gyda phobl broffesiynol eraill i roi cynlluniau gofal iechyd, asesiadau risg a chynlluniau chwarae unigol plant ar waith yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn wybodus am y plant ac yn darparu cymorth defnyddiol sy'n eu helpu i ddatblygu hyd eithaf eu gallu. Mae ymarferwyr yn cynnal cofnodion manwl o arsylwadau ac asesiadau ac yn parhau i ddatblygu'r rhain i fonitro'r cynnydd y mae

plant yn ei wneud yn eu dysgu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau a chynllunio profiadau cyffrous ac ysgogol yn seiliedig ar chwarae yn llwyddiannus.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cefnogi medrau llythrennedd a rhifedd plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn datblygu gwybodaeth plant am storïau ac iaith leoliadol pan fyddant yn eu hannog i ymuno mewn dweud geiriau a brawddegau cyfarwydd yn y stori 'We're going on an elf hunt'. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau mathemategol addas ar draws yr amgylchedd dysgu. Er enghraifft, mae llinellau rhif ar gyfer cyfrif a blociau o wahanol feintiau ar gyfer adeiladu ac archwilio yn helpu cefnogi dealltwriaeth plant o gysyniadau ac iaith fathemategol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer cyfleoedd pwrpasol i blant greu marciau ar draws yr amgylcheddau. O ganlyniad, mae plant yn dechrau ffurfio llythrennau eu henw'n gywir. Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau, fel gwneud toes chwarae, plannu blodau a llysiau. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu medrau corfforol a datrys problemau plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant trwy eu chwarae, er enghraifft ffôn yn y gornel gartref a thortshis yn yr ardal ddarganfod. Mae ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth fuddiol i brofiadau digymell. Er enghraifft, pan mae hi'n bwrw glaw, maent yn annog plant i siarad am y tywydd a rhoi ymbarél i fyny i'w helpu i gadw'n sych.

Maent yn darparu ystod o adnoddau gwerthfawr i blant yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored, ac yn galluogi plant i wneud dewisiadau ynglŷn â ble hoffent chwarae, a gyda beth. O ganlyniad, mae llawer o blant yn cynnal diddordeb yn eu dysgu a'u chwarae am gyfnodau amser cynyddol.

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut mae plant yn dysgu trwy chwarae, ac o ofynion y Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu ystod o fedrau yn llwyddiannus. Maent wedi datblygu ymagwedd gynllunio ymatebol yn seiliedig ar arsylwadau o chwarae plant, eu hanghenion a'u diddordebau. Un o'r cryfderau arbennig yw'r ffordd y mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau o chwarae mynych i lywio profiadau a newidiadau i'r amgylchedd yn y dyfodol. Er enghraifft, arsylwodd ymarferwyr blentyn yn archwilio maint amlenni, ac o ganlyniad, fe wnaethant ddarparu blwch post i bostio cardiau a llythyrau. Mae ymarferwyr yn modelu gweithgareddau'n dda, gan chwarae ochr yn ochr â phlant mewn gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth. Maent yn cefnogi datblygiad llafaredd plant yn bwrpasol trwy ofyn cwestiynau treiddgar a modelu geirfa. Er enghraifft, wrth chwarae â thoes, maent yn cyflwyno geirfa sy'n disgrifio sut mae'n teimlo.

Mae ymarferwyr yn modelu a defnyddio amrywiaeth eang o ganeuon a chyfarwyddiadau yn Gymraeg yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio ymadroddion cyfarwydd yn gyson i gael sylw plant. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu am eu treftadaeth Gymreig. Er enghraifft, maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, pan maent yn gwisgo mewn gwisg genedlaethol, yn blasu

teisennau cri, yn gwneud cawl cennin ac yn addurno calonnau i'w hanfon at eu hanwyliaid ar Ddydd Santes Dwynwen.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau y tu hwnt i'r lleoliad i ymestyn profiadau dysgu. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r siop leol i brynu cynhwysion i wneud toes i chwarae ag ef yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu pwrpasol sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol plant yn dda. Er enghraifft, maent yn dathlu gwyliau o amrywiaeth o ddiwylliannau lle mae plant yn gwrando ar storïau, yn blasu bwydydd ac yn creu crefftau. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol i blant ddysgu am y byd naturiol o'u cwmpas a meithrin synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r fferm bwmpenni ac yn mynd ar deithiau cerdded tymhorol i sylwi ar newidiadau mewn natur.

Mae gan y lleoliad ystod o weithdrefnau asesu llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn arsylwi ac yn nodi'r hyn y gall plant ei wneud eisoes yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau a chynnydd y plant trwy gyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrafodaethau llafar yn y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn am y cynnydd a wna eu plentyn.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a saff. Mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith i sicrhau bod ymarferwyr yn deall materion iechyd a diogelwch, yn yr adeilad a'r tu allan. Mae ymarferwyr yn rhoi gweithdrefnau diogeledd trylwyr ar waith, gan sicrhau bod drysau'r lleoliad yn cael eu cloi ac ymwelwyr yn cael eu cofnodi. Mae arweinwyr yn llunio asesiadau risg manwl sy'n cwmpasu llawer o agweddau ar y lleoliad a'r gweithgareddau. Fodd bynnag, mae'r asesiad risg tân yn gofyn am gynnal adolygiad i sicrhau bod offer diffygiol yn cael ei atgyweirio'n brydlon. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod amserlenni glanhau addas wedi cael eu creu ar gyfer yr holl adnoddau a'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Maent yn cynnal ymarferion rheolaidd ar gyfer gadael mewn tân, ac maent yn hyderus ynglŷn â'r weithdrefn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn addas ar gyfer gofalu am blant. Mae ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd yn dda, ac mae anghenion plant yn ganolog i'r dyluniad. Maent yn sicrhau bod plant yn cael mynediad annibynnol i'r toiledau a'r ardal awyr agored, y gellir cael mynediad uniongyrchol iddi o'r ystafell chwarae. Gall ymarferwyr ddefnyddio cyfleusterau cegin i baratoi bwyd.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r gofod ar waliau i roi ymdeimlad o berthyn i blant trwy ddefnyddio ffotograffau o blant sy'n cael eu harddangos ar lefel eu llygad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau o ansawdd uchel i ysgogi diddordeb a dychymyg y plant, a'u cynorthwyo i lwyddo ym mhob agwedd ar eu datblygiad. Mae ymarferwyr yn gosod adnoddau chwarae yn dda dan do a'r tu allan, fel ei gilydd, i annog plant i fod yn chwilfrydig ac arbrofi â nhw wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, yn yr ardal adeiladu, maent yn arddangos ffotograffau o adeiladau a chestyll lleol, i ysbrydoli plant i geisio'u hadeiladu. Mae ymarferwyr yn gosod adnoddau er mwyn i blant allu eu defnyddio'n hawdd. Maent yn addasu ardaloedd

dysgu'n rheolaidd i gynnal diddordeb plant ac ymestyn eu medrau. Er enghraifft, maent yn ychwanegu coed ac addurniadau Nadolig at y gegin chwarae rôl, y gornel lyfrau a'r ardaloedd awyr agored ar ôl i blant ddangos diddordeb mewn addurno coed. Mae plant yn manteisio ar adnoddau priodol sy'n portreadu'r byd o'n cwmpas, gwahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth. Mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau dilys a deunyddiau naturiol, yn ogystal â theganau sy'n ddatblygiadol briodol, gan roi cyfleoedd cyfoethog i blant chwarae a dysgu.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad i ddarparu amgylchedd i blant ddysgu trwy chwarae, rhannu a gwneud ffrindiau. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi darlun cywir o'r lleoliad ac mae ystod o bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg defnyddiol, sy'n cael eu cymhwyso'n briodol yn ymarferol. Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, trylwyr ac amserol, ac yn darparu cymorth da ar gyfer cynnwys ymarferwyr newydd. Mae ganddynt brosesau effeithiol ar gyfer goruchwylio a gwerthuso gwaith ymarferwyr, sy'n canolbwyntio ar les ymarferwyr, gwella perfformiad a nodi anghenion hyfforddi yn y dyfodol yn effeithiol, ac yn arwain at dargedau cytunedig priodol. Ni nodwyd bod unrhyw reoliadau na Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi cael eu torri yn ystod yr arolygiad.

Mae'r arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau ac maent yn cynorthwyo ymarferwyr yn effeithiol i gynnig gwasanaeth cyson dda. At ei gilydd, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o ymarferwyr ac adnoddau i gefnogi lles, dysgu a chwarae plant. Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau da, ac mae ganddynt swydd ddisgrifiadau priodol, sy'n sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rôl yn y lleoliad. Ceir ymrwymiad cryf i waith tîm. Mae pob un o'r ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus ac yn cefnogi'i gilydd yn dda.

Mae prosesau hunanwerthuso'r lleoliad yn effeithiol. Maent yn ennyn diddordeb yr holl randdeiliaid yn y broses, fel athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a rhieni, i nodi cryfderau a meysydd defnyddiol i'w datblygu, er enghraifft gwella gwybodaeth plant ac ymarferwyr am y Gymraeg, a'u defnydd ohoni. Ceir cynlluniau datblygu gwerthfawr, sy'n cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus gan arweinwyr ac ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn gryf ac mae plant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn.

Mae pob un o'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi ymgymryd ag ystod eang o gyfleoedd hyfforddi gwerthfawr, fel rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith a gwella medrau Cymraeg ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, er enghraifft gweithredu'r trefniadau asesu newydd a'r defnydd pwrpasol o'r awyr agored. Gwneir defnydd effeithiol o grantiau sydd ar gael. Er enghraifft, mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy brynu adnoddau, ac o ganlyniad, mae plant yn hapus ac yn gwneud cynnydd da.

Mae ymarferwyr yn creu cysylltiadau buddiol â rhieni a gofalwyr, fel gweithdai rhieni, i godi ymwybyddiaeth am ddarllen er mwynhad. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn

rhannu gwybodaeth am brofiadau plant yn y lleoliad yn ddigon rheolaidd i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gallu rhoi mwy o gymorth i'w plentyn ar yr aelwyd. Mae'r lleoliad yn darparu ymweliadau pwrpasol â'r parc cyfagos ac yn gwneud defnydd da o ymwelwyr, fel hyfforddwr ioga i wella iechyd a lles y plant, a rhoi dealltwriaeth well iddynt o'u cymuned leol. Ceir cysylltiadau priodol â'r ysgolion lleol, sy'n cefnogi cyfnod pontio plant i'r cam nesaf yn eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Crown Copyright 2024: This report may be re used free of charge in any format or medium provided that it is re used accurately and not used in a misleading context. The material must be acknowledged as Crown copyright and the title of the report specified.

Publication date: 09/02/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 09 Chwefror 2024